# FOCUS WALES 2026

## FILM FESTIVAL

# 2026 Film Festival **PROGRAMME**

Open to all FOCUS Wales wristband holders, subject to capacity

# DYDD IAU 7FED MAI, 2026.

## *Theatr Grove Park*

**Cystadleuaeth Ffilm Fer Cymwys BAFTA Cymru**

10:00 YB – 11:00 YB: DRAMA 1

11:00 YB – 12:00 YP: COMEDI 1

12:00 YP – 01:00 YP: DOGFEN 1

01:00 YP – 02:00 YP: IÂS a CHYFFRO

02:00 YP – 03:00 YP: SGWRS TALENT: Fe wnaethon ni Ffilm Fer £70,000 gyda Film4: “Flock”

03:00 YP – 04:00 YP: ANIMEIDDIO

04:00 YP – 05:00 YP: DRAMA 2

## *Odeon Wrecsam.*

**Cystadleuaeth Ffilm Fer Cymwys BAFTA Cymru**

05:00 YP - 06:00 YH - Derbyniad Carped Coch.

06:00 YH - 08:30 YH - Madfabulous + Holi ac Ateb

08:30 YH - 10:40 YH - Aisha Can’t Fly Away

## *HWB @ Queen’s Square*

10:00 YH - 00:00 YB - Parti Wedyn i Wneuthurwyr Ffilmiau.

## *Lleoliadau Cyfagos*

00:00 YB - 02:00 YB - Yr Ŵyl Gerdd yn parhau.

# DRAMA 1
# CYSTADLEUAETH FFILM FER CYMWYS BAFTA CYMRU

## *10am-11am - Grove Park Theatre*

*Y gorau o Ffilmiau Byrion DRAMA newydd o Gymru a ledled y byd.*
**Guidance: 15+** *Strong language, mental health issues.*

**1. I Wanna Fly** *gan Canwen Liu*
Mae hogyn a anwyd gydag adenydd yn breuddwydio am hedfan. Wrth iddo dyfu’n hŷn, mae ei adenydd bach maint dwylo yn aros yn ddigyfnewid ac mae ei freuddwyd o gael hedfan yn ymddangos yn amhosib.

*“a tour de force of a film that doles out humour, bravery, conviction, persistence in the eyes of adversity while handing the viewer buckets of empathy for the protagonist!”*

**2. An Excess Baggage** *gan Myriam Garcia Marienstras*
Mae Sophie yn cuddio’i haneswythder o fewn y cwlwm dwys mae’n rhann gyda’i merch, Lila. Pan mae Lila’n gadael am wersyll haf, mae Sophie ar ei phen ei hun am y tro cyntaf, wedi’i llethu gan eu gwahaniad.

**3. Finding Calm** *gan Chris Brake*
Amser i’r teulu ydy’r Nadolig. Ond i Sam, sy’n dad am y tro cyntaf,, mae hi hefyd yn adeg addasu wrth iddo geisio a methu cysylltu gyda’i fab newyddanedig, George.

*“an amazing piece of work!”*



## COMEDI 1
# CYSTADLEUAETH FFILM FER CYMWYS BAFTA CYMRU

*11am-12pm - Grove Park Theatre*

*Y gorau o Ffilmiau Byrion COMEDI newydd o Gymru a ledled y byd.*
***Guidance:** 15+ Strong language.*

**1. Stroke of Genius**
*gan Karel Van Bellingen*
Bore tawel yn disgwyl am lythyr, sy'n cyferbynnu â cythrwfl ar raddfa gosmig a achosir gan ddifaterwch difrodol y dyn hwnnw sy'n disgwyl ynghylch ei etifeddiaeth a'i bwrpas.

**2. Deli Meat** *gan BRICK*
Caiff dau droseddwr di-glem, Cammy a Coops, y dasg o gladdu eu corff cyntaf yn y goedwig ond yn cael eu hunain benben â'i gilydd wrth sylweddoli mai dim ond un rhaw sganddyn nhw rhyngddon nhw.

*"...it's paced just right as the dialogue keeps it sweetly darkly comedic."*

**3. Bowl** *gan John Kelbie*
Henwr hoyw, chwim ei feddwl ydy Arthur, a gafodd ddiagnosis o grudcymalau yn ddiweddar. O glywed fod ei hen wrthwynebydd a chystadleuwr, Norma, yn chwarae mewn gêm elusennol o fowls lawnt cyn bo hir, dyma Arthur yn ceisio cyfle i brofi'i hun.



**4. Full Tank**
*gan Jonathan Williams*
Mae'n rhaid i yrrwr cerbyd dianc aros dri munud i giang o ladron ddychwelyd at y car. Dim ond un problem sydd - mae o bron â marw isho pasio dŵr.

## DOGFEN 1
# CYSTADLEUAETH FFILM FER CYMWYS BAFTA CYMRU

*12pm-1pm - Grove Park Theatre*

*Y gorau o Ffilmiau Byrion DOGFEN newydd o Gymru a ledled y byd.*
***Guidance:** PG*

**1. Hollow Mountain**
*gan Mark Griffiths*
Archwilia Hollow Mountain effeithiau ffrwydriadau chwarel, llwch silica, a'r golled raddol o ofod gwyrdd sy'n amgylchynu cymuned Glyncoch yn ne Cymru.

Mae'n codi cwestiynau brys ynghylch y penderfyniadau niweidiol a wneir gan y rhai hynny mewn grym, a'r goblygiadau hirdymor i'r dirwedd fregus a'r bobl sy'n byw yn ei chysgod.

**2. Deffro'r Bardd Cwsg**
*gan Gwion Aled Williams*
Rhaglen ddogfen am Ellis Wynne (March 7, 1671 – July 13, 1734) - clerigwr o Gymro ac awdur un o'r darnau o lenyddiaeth bwysicaf a mwyaf dylanwadol yn y Gymraeg.

**3. The Earth Beneath Margaret's Feet** *gan Lisa Smith*
Trwy'r daten, mae'r cyfarwyddwr Romani, Lisa Smith, yn archwilio atgofion ei nain, heb eu cofnodi, gan ddod o hyd i rwydwaith o arosfannau ei hynafiaid yng ngorffennol crwydrol ei theulu.



## IÂS A CHYFFRO
# CYSTADLEUAETH FFILM FER CYMWYS BAFTA CYMRU.

*1pm-2pm - Grove Park Theatre*

*Mae'r adran hon yn mynd yn syth at ein Panel gyda llunwyr 'Flock'*
*Y gorau o Ffilmiau Byrion IÂS a CHYFFRO newydd o Gymru a ledled y byd.*
***Guidance: 15+** Strong language, drug use, mental health issues.*

**1. Scope** *gan Emma Moffat*
Metaffor amlhaenog ar gyfer OCD: Gyda chymorth ei therapydd, mae'n rhaid i Antonia ganfod sut mae hi wedi datblygu obsesiwn eithafol gyda chylchoedd, cyn ei bod yn rhy hwyr.

**2. Grandma is Thirsty** *gan Kris Carr*
Yr oll mae George eisiau ydy peidio cael ei wthio o gwmpas gan y bwlis lleol. Felly, pan fo pâr o efeilliaid yn cynnig ei gyflwyno i'w nhain - a all ei wneud "yn fawr a chryf" - mae'n bachu ar y cyfle. Un broblem: mae hi'n 600 mlwydd oed ac yn cadw'i hun yn ifanc mewn modd tra anarferol ... trwy sugno'r ieuenctid allan o blant.

**3. THE PEARL COMB** *gan Ali Cook*
Ym 1893, daw gwraig i bysgotwr y person cyntaf i iachâu rhywun o'r ddarfodedigaeth. Aiff doctor ati gyda'r bwriad o brofi mai lle'r wraig ydy yn y cartref ac nid ymarfer med-dyginiaethau - dim ond i ddarganfod ffynhonnell ei doniau uwchnaturiol.

**4. The Third Dream**
*gan Mohammadhossein Nikzad*
Mae breuddwydiwr yn gwrthsefyll ymdrechion cwestiynu doctor sy'n mynnu cael at wraidd y gwirionedd am ei freuddwydion trwy ddefnydd seicdreiddio gorfodol. Wrth i bwysedd ddyfnhau, mae atgofion yn cael eu newid, eu dileu a'u hail-sgwennu ar fympwy. Heb unrhyw fodd dianc o afael yr awdurdodau, mae'n sylweddoli nad oedd y gwirionedd yn gyfrifoldeb arno fe i'w amddiffyn, a bod cyffesu'n anorfod o'r dechrau un.



*"This was perfect cinema. No notes whatsoever. I wish it were a feature. 10/10. Stunning."*

# SGWRS TALENT

*2pm-3pm - Grove Park Theatre*

## FE WNAETHON NI FFILM FER £70,000 GYDA FILM4: "FLOCK"

**DIRECTOR, PRODUCER AND CO-PRODUCER WILL BE IN ATTENDANCE.**

Dewch i wrando'n uniongyrchol gan y tîm tu ôl i "Flock," a grewyd fel rhan o Gronfa Future Takes Film 4. Mae'r digwyddiad hwn yn cynnwys sgriniad arbennig o'r ffilm a ddangoswyd gyntaf yng Ngŵyl Ffilmiau Llundain BFI.

Mac Nixon - Awdur/Cyfarwyddwr

Matt Ashwell -Cynhyrchydd

Scott Piggott - Cyd-gynhyrchydd

Llywyddir gan Bablu Shikdar

FUTURE TAKES



# ANIMEIDDIO 1
# CYSTADLEUAETH FFILM FER CYMWYS BAFTA CYMRU

## *3pm-4pm - Grove Park Theatre*

*Y gorau o Ffilmiau Byrion ANIMEIDDIO newydd o Gymru a ledled y byd.*
***Guidance: 18+** for 'Nono' which contains strong violence*
*Other films **12+** Mental health issues.*

**1. Nono** *(18)* *gan Aerin Wu*
Wedi ei barti penblwydd, mae Nono'n codi llaw i ffarwelio â'i ffrindiau. Mae'n cael ei adael gyda rhyw wacter rhyfedd wrth i bethau dechrau teimlo'n chwithig.

**2. Extinction** *gan Molly Allen*
Mae cinio gwadd i'r cyfoethog a'r elît yn troi'n anhrefn gwaedlyd wrth iddyn fethu â diwallu eu trachwant.

**3. Last Lines** *gan Greg McLeod*
Ar ymylon y galaeth, mae dau gyfaill yn cwrdd am goffi boreol. Gan defnyddio brawddegau olaf dramâu Shakespeare, maen nhw'n rhannu'u meddyliau breuddwdiol am fywyd, cariad, unigrwydd, a gwrthdaro. Maen nhw'n trafod y pwnc llosg ynghylch beth ydy diweddglo a beth sy'n dod wedyn?

**4. Dobrina** *gan Hannes Rall*
Mae Lotte Reiniger yn cwrdd â Sergio Leoneyn y ffilm animeiddio fer hon, lle mae chwant yn llosgi mor danbaid â haul y diffeithwch.

**5. Fawn** *gan Molly Mayhew*
Yn dilyn marwolaeth disymwth ei rhieni, gofodir Fawn i ddychwelyd i dŷ na fu'n gartref iddi ers talwm. Wrth i atgofion poenus ddod i'r wyneb, teflir Fawn ar lwybr taith anodd o ailgysylltu â'r gorffennol roedd hi wedi meddwl oedd wedi hen adael y cof.

*"...it pulls you into the story...the texture and feel of the animations gloriously dovetail with the rough ripples and dents of past memories and events that stay with us long into adulthood."*



**6. Troll Story** *gan Oliver Smith*
Ffuglen animeiddio damcaniaethol am drôl rhyngrwyd sydd ond yn trolio trôls eraill. Sylwebaeth gymdeithasol sy'n delio â chamwybodaeth, polareiddio a sut mae technoleg sydd ar flaen y gâd yn bygwth byd ôl-wir.

Ceir mwy na hanner can dull o animeiddio yn y ffilm hon, pob un wedi'i greu gan yr un artist, dros bedair blynedd.

**7. Brain Space**
*gan Laura Tofarides*
Wedi'i gyrru i mewn i'w mheddwl ei hun, mae Rhi yn archwilio'r meddyliau, ofnau a'r cymhellion sy'n siapio ein byd mewnol. Pan gaiff ei phlentyn mewnol ei fygwth gan gysgodion ei thrawma hi ei hu, mae ofn yn troi'n ddicter a rhaid iddi ymladd yn ôl i adennill rheolaeth. O anobaith i gydnabyddiaeth, mae hi'n dysgu dewis bywyd.

**8. Crybagan** *gan Eleri Edwards*
Mae Carys yn symud allan o gatref ei phlentyndod ac yn canfod ei fod yn awtistig trwy alwad ffôn. Wrth wynebu ei gorffennol gan ofyn pam na sylowdd neb, ei llais mewnol negyddol fydd ei her fwyaf.

**9. Denmark** *gan Robert Petrie*
Yn Downtown LA Heat, mae bydoedd yn gwrthdaro pan aiff heist epig o'i le. Daw dau gyn-droseddwr wyneb-yn-wyneb â dydd barn imperialaidd.

# DRAMA 2
# CYSTADLEUAETH FFILM FER CYMWYS BAFTA CYMRU.

## *4pm-5pm - Grove Park Theatre*

*Y gorau o Ffilmiau Byrion DRAMA newydd o Gymru a ledled y byd.*
***Guidance:** 18+ for 'Not That Bad' | Other films **U**.*

**1. Linda, Linda!** *gan Kiyan Agadjani*
Mae'r cyn-leidr banciau, Linda (82 mlwydd oed), yn dyheu am ei gorffennol cythryblus. Pan, un dydd, y daw ei hen gyd-droseddwr, Tony (80 mlwydd oed) i'r golwg, mae dewis yn ei hwynebu: mentro un job olaf neu ei ddanfon i uffern.

**2. Nativity Scene** *gan Felipe Bibian*
Ar Noswyl Nadolig, mae, Dejair, cyn-ymladdwr yn erbyn yr unbeniaeth milwrol, yn casglu ei deulu ynghyd yn yr iard gefn. Mae gwn dŵr fel anrheg yn arwain Dejair i ymwrthod â'r dioffyg synnwyr mewn rhoi arf i blentyn.

**3. Not That Bad** *(18)*
*gan Yana Danilova*
Archwiliad bersonol o'r adeg pan fo merch yn dechrau gweld ei gorffennol trwy lens wahanol, wrth i atgofion newid ystyr yn dawel yn ystod cyfarfyddiadau dyddiol.

*"A beautifully directed film that makes its mark and delivers its message - very effective and very visceral!"*


*"Literally 10s across the board. Flawless. Beautifully paced with impactful messaging."*

# BAFTA-CYMRU QUALIFYING FEATURE FILM COMPETITION

## *Thursday 7th May, 2026. Odeon Wrexham*

*Cystadleuaeth Prif Ffilm Cymwys BAFTA Cymru yn Odeon Wrecsam.*
***Guidance** Madfabulous rated **12A**. Moderate sex references, upsetting scenes.*
*Aisha Can't Fly Away guidance: **18+** .*

**Derbyniad Carped Coch** *5yp-6yh*
Derbyniad carped coch gyda diodydd cyfarch gan Ddistyllfa Silver Circle + arddangosfa arbennig Madfabulous.

**Madfabulous** *(12A)* **+ Holi ac Ateb**
*6yh-8.30yh*
Madfabulous - cyfarwyddwyd gan Celyn Jones ac yn serennu Callum Scott Howells. North Wales Premiere.

**BYDD Y CYFARWYDDWR A DONIAU YN BRESENNOL.**

Mae Henry Paget - 5ed Ardalydd Môn, yn afradu ei etifeddiaeth yn y giamocs sinematig afieithus a bywiog hon. Hefyd yn serennu Rugan Stokes a Rupert Everett. Wedi'i raddio 12A. 1 awr 48 munud. Mae'r ffilm yn dechrau am 6yh.

Dewch yn gynnar i osgoi cael eich siomi. Mae gofyn cael sedd gadw neu docyn i fynychu. Bydd 'llinell frys' yn cael ei gweithredu ar gyfer unrhyw un heb sedd gadw. Bydd unrhyw seddi gwag yn dod ar gael 10 munud cyn i'r ffilm ddechrau.

**Aisha Can't Fly Away** *(18+)*
*8.30yh-10.40yh*
Aisha Can't Fly Away - Cyfawyddwyd gan Morad Mostafa ac yn serennu Buliana Simon. Premiere Cymru.

Cafodd y portread sinematig annwyl a hoffus o ofalwr yn ceisio mynd i'r afael â chydbwyso gofynion ei bywyd yn Cairo ei phremiere yng Ngŵyl Ffilmiau Cannes.

Hefyd yn serennu Ziad Zaza, Mamdouh Saleh, Maya Mohamed. Arweiniad 15+. 2 awr 11 munud.

Mae'r ffilm yn dechrau am 8.30yh. Dewch yn gynnar i osgoi cael eich siomi. Mae gofyn cael sedd gadw neu docyn i fynychu. Bydd 'llinell frys' yn cael ei gweithredu ar gyfer unrhyw un heb sedd gadw. Bydd unrhyw seddi gwag yn dod ar gael 10 munud cyn i'r ffilm ddechrau.



# DYDD IAU
# PARTI WEDYN I WNEUTHURWYR FFILMIAU

*HWB @ Queen's Square*

**Parti Wedyn i Wneuthurwyr ffilmiau**
Ymunwch â ni am ddiodydd, rhwydweithio a dawnsio, diolch i Ddistyllfa Silver Circle.

**Cerddoriaeth Fyw yn parhau, amryw o leoliadau** *0000-0200*
Mae'r ŵyl yn parhau tan berfeddion nos mewn sawl lleoliad ledled Canol Dinas Wrecsam.



# DYDD GWENER 8FED MAI, 2026

*Theatr Grove Park*

**Cystadleuaeth Ffilm Fer Cymwys BAFTA Cymru**

10:00 YB – 10:45 YB: CATEGORI AGORED

10:45 YB– 12:00 YP: DRAMA 3

12:00 YP – 01:00 YP: COMEDI 2

01:00 YP – 02:00 YP: DOGFEN 2

02:00 YP – 03:00 YP: SGWRS TALENT: Fe wnaethon ni Raglenni Dogfen gyda Doc Society a The Uncertain Kingdom.

03:00 YP – 04:00 YP: ARBROFOL

04:00 YP – 05:00 YP: ANIMEIDDIO 2

05:00 YP – 05:45 YP: FIDEOS CERDD

*Odeon Wrecsam*

**Cystadleuaeth Prif Ffilm Cymwys BAFTA Cymru**

05:00 YP - 06:00 YH - Derbyniad Carped Coch.

06:00 YH - 08:30 YH - Effi o Blaenau + Holi ac Ateb

08:30 YH - 09:30 YH - Seremoni Wobrwyo

*HWB @ Queen's Square*

10:00 YH - 00:00 YH - Parti Wedyn i Wneuthurwyr Ffilmiau.

*Lleoliadau Cyfagos*

00:00 YB - 03:00 YB - Yr Ŵyl Gerdd yn parhau.

## CATEGORI AGORED
# CYSTADLEUAETH FFILM FER CYMWYS BAFTA CYMRU

*10am-10.45am - Grove Park Theatre*

*Y gorau o Ffilmiau Byrion CATEGORI AGORED newydd o Gymru a ledled y byd.*
*Guidance 15+*

**1. Making Beauty**
*gan Tammy Salzl*
Mae artist ifanc yn ceisio harddu'r byd. Ond yn sgil colled a newid, mae ei thrywydd am berffeithrwydd yn cymryd tro creulon.

**2. Spoken Movement Family Honour** *gan Daniel Gurton*
Dawns a symud. Ar aelwyd Brydeinig-Ghanaidd sy ynghlwm â thraddodiad a chrefydd, triga ferch ifanc dan reolaeth ormesol ei thad blagardus. Wrth y bwrdd cinio teuluol, mae dadleuon tanbaid yn datgelu rhwyg dwfn rhyngddyn nhw wrth iddyn nhw ddod wyneb-yn-wyneb â'u hanes cyfrannol.

**3. FANTASMA** *gan Mikey Slavich*
Symudiad, ffasiwn, cerddoriaeth a thirwedd Wedi'i osod yn y gwyll byrhoedlog cyn toriad dydd. Yn gwahodd chwedl a chenhedlaeth y dyfodol. O fewn y diffeithwch tawel...

**4. RING RING** *gan Adrian León*
Mae mab sy'n galaru yn prynu hen ffôn o siop hen greiriau er mwyn cael sgwrsio gyda'i ddiweddar fam.



## DRAMA 3

*10.45am-12pm - Grove Park Theatre*

*Y gorau o Ffilmiau Byrion DRAMA newydd o Gymru a ledled y byd.*
**Guidance: 18+** *for 'If Bird's Believed in God' | Other films* **PG**.

**1. If Birds Believed in God** (18)
*gan Samer Saifan*
Mae dyn o Balestina yn ymdrechu i fod yn ffotograffydd yn Efrog Newydd, ond yn profi gweledigaethau seicolegol swreal wrth iddo ymrafael â thrawma cenedliadol.

**2. Finn** *gan Sullivan Tarrant*
Mae dau fachgen ifanc, Indy a Finn, yn dod yn gyfeillion dros anturiaethau gwneud ffilmiau creadigol yng nghoedwig eu plentyndod. Wrth i wahanu agosáu, mae eu cyswllt yn cael ei brofi, gan eu gorfodi i wynebu gwirioneddau anodd tyfu i fyny a gwahanu.

*"Understated and beautiful."*

**3. Hariksee**
*gan Eva Rini May Cragg*
Mae cwpl yn reulio'u haf yn y goedwig. Mae yntau'n ceisio dal pysgod tra bo hithau'n mwynhau'i hun o'i gwmpas yn llawn cariad a bywyd.

**3. Big Steps** *gan Junbo Qiu*
Roedd Sammy'n byw bywyd diofal yn chwe mlwydd oed - nes bod ei fam yn rhoi anrheg iddo sy'n ei baratoi'n dawel ar gyfer byd hebddi hi.

*"A simple story brilliantly told. I needed tissues!"*

# COMEDI 2

## 12pm-1pm - Grove Park Theatre

*Y gorau o Ffilmiau Byrion COMEDI newydd gorau o Gymru a ledled y byd*
*Guidance: PG*

**1. Bulb** *gan Guy Taylor*
Mae'r teulu yma'n berchen ar un bylb golau yn unig.

**2. The Man That I Wave At**
*gan Ben S Hyland*
Mae dyn yn profi argyfwng dirfodol wrth geisio gweithio allan pwy ydy'r dyn dirgel y mae'n codi'i law arno.

**3. The Quackening**
*gan James Button*
Aiff rhyw Gymro crintachlyd i ymweld â'i nain, dim ond i ddarganfod ei bod hi wedi'i mhelltithio! Felly, rwan mae'n rhaid iddo'i blydi achub hi (a'r byd) rhag hwyaden dieflig… a hynny cyn hanner nos.

**4. Collage** *gan Marius Conrotto*
Mae merch sy'n gweithio mewn amgueddfa'n ceisio argyhoeddi cydweithiwr arall bod dau ymwelydd yn fflyrtio. A sut mae hi'n gwybod? Dywed astudiaethau gwyddonol bod chwe arwydd sy'n dangos atyniad un person tuag at y llall.

**5. Van Kampen & The Mosquito**
*gan Scott Hurran*
Mae lleiddiad profiadol yn cael ei orfodi i fentora. Gorfodir lleiddiad cyflogedig i fentora intern ei fos mewn gwylfa ar warws: nepo-fabi, anniben, wedi gwirioni â hunanluniau, a drôdd yn asasin, mewn gwylfa ar warws.



# DOGFEN 2
# CYSTADLEUAETH FFILM FER CYMWYS BAFTA CYMRU

## 1pm-2pm - Grove Park Theatre

*Mae'r adran hon yn arwain yn syth at ein Panel gyda chrëwyr 'Other Life' a Tŷ Unnos. Y gorau o Ffilmiau Byrion DOGFEN o Gymru a ledled y byd.*
*Guidance: PG*

**1. On Beyond Fences** *gan Lara Jacqueline Hartzenbusch, Tom Donohue, Jack Kudas, Wes Smith and Silvia Sonntag*
Cipolwg prin a phersonol oddi fewn i Garchar Maine State, lle mae ymdrechion i ddiwygio'r sefydliad hanesyddol ciaidd hwn (sail nofel fer Stephen King a'r ffilm enwog, "The Shawshank Redemption") wedi trawsnewid yn ddramatig diwylliant y carchar, y modd mae'r "trigolion" yn treulio'u cyfnod ac, yn y pen draw, sut maen nhw'n dychwelyd i'w cymunedau.

*"…thought-provoking, positive and a testament to a correction facility and its staff members…which is the film's driving force."*

**2. Shepherd Boy**
*gan Joao Queiroga*
Wedi'i gadael i ofalu amdano'i hun ar gyrion Doha, mae ci o'r enw Shepherd Boy yn gorfod cyfarwyddo'i hun â'r diffeithwch



garw sydd bellach yn gartref iddo mewn brwydr i oroesi.

**3. Other Life** *gan Tom Tennant and Theo Tennant*
Mae Mike ac Emlyn, ffrindiau gorau ac archwilwyr UFOs, yn crwydro heolydd de Cymru mewn fan amryliw. Maen nhw'n cyfweld unigolion sy'n honni iddyn nhw ddod wyneb-yn-wyneb â'r anesboniadwy; globynnau pelydrol, llongau gofod anferthol, pelydrau goleuni rhaeadrol. Eu nod ydy dogfennu'r gweliadau hyn mewn ymdrech i archwilio eu hystyr a tharddiad y ffenomenâu yma.

*Yn dilyn yr adran hon, fe fydd pnael gyda Tom a Theo, i drafod gwneud y ffilm.*

## SGWRS DALENT

*2pm-3pm - Grove Park Theatre*

## FE WNAETHON NI RAGLENNI DOGFEN GYDA'R DOC SOCIETY A THE UNCERTAIN KINGDOM

**BYDD Y CYFARWYDDWYR YN BRESENNOL.**

Dewch i glywed yn uniongyrchol gan y tîm tu ôl i 'Other Life,' a ariannwyd trwy Uncertain Kingdom a 'Tŷ Unnos,' a ariannwyd trwy'r BFI Doc Society. Bydd gwneuthurwyr ffilmiau yn rhannu eu profiad a'r broses o weithio gyda'r arianwyr a'u timau i greu'r ffilmiau.

Theo Tennant a Tom Tennant - Cyfarwyddwyr Other Life

Nina Maria Allmoslechner a Lily Tiger - Cyfarwyddwyr Tŷ Unnos

Llwyddir gan Bablu Shikdar



## ARBROFOL
## CYSTADLEUAETH FFILM FER CYMWYS BAFTA CYMRU

*3pm-4pm - Grove Park Theatre*

*Y gorau o Ffilmiau Byrion ARBROFOL newydd o Gymru a ledled y byd.*
**Guidance: 15+** *Drug use, adult themes.*

**1. Blondi** *gan Jack Salvadori*
A all ci barhau i fod yn gyfaill gorau i ddyn os taw'r Führer ydy'r dyn hwnnw? Mae Blondi yn archwilio'r cwlwm hynod rhwng Hitler a'i gi blaidd. O fwyta briwsion dan y bwrdd ar benblwydd y Führer, i fyw yng nghaethiwed byncar.



**2. Eclisse** *gan Saul Sulway*
Mae dyn treuliedig yn llithro rhwng rith a chof wrth i ysbryd ei orffennol aflonyddu'r tywyllwch na all bellach ddianc ohono.

**3. Water Into Wine** *gan Rugan Smith-Brown*
Ffilm arbrofol Gymraeg ydy Water Into Wine sy'n archwilio gorddibyniaeth ymysg pobl ifanc. Mae merch ifanc yn deffro mewn byd breuddwydiol, lle mae ei alcoholiaeth yn ei chwmpasu ac, wrth i'w gorddibyniaeth ei hwynebu, mae hi'n sylweddoli y gall ei phlentyndod, ei hetifeddiaeth a'i hiaith gynnig dihangfa iddi.

**4. Insaneness** *gan Tian Ding*
Dim ond trwy sbecian trwy ffenest y gallai Ding Yi, myfyriwr graddedig mewn cyfnod clo, edrych ar y byd oddi allan. Fe'i atynwyd ar ddamwain at Ji Yu, nyrs yn byw gyferbyn, ac roedd sbecian Ji Yu yn gwneud ei ysbryd a'i deimladau'n fwyfwy gwallgof.

## ANIMEIDDIO 2
# CYSTADLEUAETH FFIM FER CYMWYS BAFTA CYMRU

*4pm-5pm - Grove Park Theatre*

*Y gorau o Ffilmiau Byrion ANIMEIDDIO o Gymru a ledled y byd.*
**Guidance:** U. *Suitable for all.*

**1. Dad Said** *gan Livia May*
Mae Freya ifanc yn caru'i thad, er nad ydy e bob amser yn rhoi'r un faint o gariad yn ôl. Trwy dderbyn ei hun am bwy ydy hi, mae'n dysgu torri'n rhydd o farn ei thad..

**2. On Saint Nicholas' Eve** *gan Emy Mirel Ivasca*
Wedi gweld dyn yn gorwedd yn yr eira, mae bachgen yn dwyn i gof noson Sant Niclas a dreuliodd gyda'i dad flynyddoedd ynghynt. Mae chwarae gyda'i dad yn cymryd tro annisgwyl, tra bo ei hoff degan yn gadael blas cas.

**3. Gibbous** *gan Ang Yi Benet*
Mae gibon o fam yn ceisio achub ei hepil rhag golau uwchnaturiol dirgel sy'n plagio'r jwngl yn ystod y nos.

**4. Spooky** *gan Adeola Lawal*
Mae plentyn ifanc yn teimlo wedi'i datgysyllto o'i rhieni ac yn cael ei thynnu mewn i'w hunan a thechnoleg, nes bod ymwelydd annisgwyl â'r tŷ yn ysgwyd eu trefn arferol.

**5. From Jazz to Jackboots** *gan Justin Stephenson*
Ffilm ddawns arbrofol wedi'i animeiddio yn archwilio dulliau trylwyr y gyfundrefn Natsïaidd o gyfyngu trwy eu "10 Reol ar gyfer Bandiau Dawns."

**6. Clay Bird** *gan Kiran Bhakta Joshi*
Stori deimladwy am Sichu, merch naw mlwydd oed a'i thaid o grochenydd sy'n meddwl y byd ohoni. Caiff perthynas Sichu, y llancles ifanc gyda'i thaid ei hysgwyd pan fydd ei chyd-ddisgyblion mwy cyfoethog yn gwawdio'i chrochenydd o daid.

# FIDEOS CERDDORIAETH

*5pm-5.45pm - Grove Park Theatre*

*Y gorau o FIDOES CERDDORIAETH newydd o Gymru a ledled y byd.*
**Guidance: 15+** *Strong language, drug use, mental health issues.*

**1. Please, Mr Preacher** *gan Tamudaishe Ngwaru, Kudakwashe Chinho and Thabiso Nyoni*
Cyflwyniad gweledol o gân wreiddiol dan y teitl "Please, Mr Preacher" gan Nyasha Munashe, artist hip-hop a'r gair llafar o Simbabwe a fu'n perfformio yng Nghaerdydd am 5 mlynedd.

"It is shot wonderfully, paced well, and well directed."

**2. Tell 'Em** *gan Terry Blade*
Ar lawr ceunant lle plyga amser, hynafiaid sy'n cwrdd dan gysgod coed hynafol. Cwyd eu defod cyfannol fel gwrthiant, yn adeiladwaith o bridd, llais, a llinach, prawf fod bywyd yn cynnal ffurf hyd yn oed pan yn doredig.

**3. Paint a Mirror** *gan Nicole Mesri*
Mewn byd dan ddylanwad trachwant, technoleg a pheiriannau awtonomaidd, mae dynoliaeth wedi graddol golli ei llais a'i rhyddid.



**4. Smoldering-Smoldering**
*gan Ilya Noyabrev*
Sonia'r gân hon am ffydd pobl yr Wcráin ym muddugoliaeth a dyfodol gobeithiol, gan adlewyrchu ein presennol ninnau.

**5. Chokin'** *gan Kai Straw*
Mae ffigwr dirgel yn tynnu amser yn ôl gan ddadwneud hunaladdiad. Mae'r hyn a dorrwyd bellach yn gyfan, a'r hyn a glwyfwyd wedi'i iachâu, a bywydau'n cael eu hadfer. Wedi cael ei dynnu'n ôl trwy amser a'i wneud yn dyst i'w farwolaeth ei hun, ynghyd â phopeth ddaeth yn ei sgil, gorfodir y person hwn a ildiodd ei fywyd i wynebu'r casineb mae'n ei deimlo amdano'i hun a'r cariad at ei deulu.

**6. I'm Back** *gan Ilya Noyabrev*
Cân deimladwy am ddychwelyd adref wedi absenoldeb hir. Mae'r canwr yn myfyrio ar gynhesrwydd ac adnabyddiaeth cyfarwydd ei bro, lle mae pob anadliad yn teimlo'n rhwyddach a phob eiliad yn fwy ystyrlon.

**7. Modern Man - MORN**
*gan Benjamin Pritchard, Felix Lawson, Luca Lawson*
Y cwmni ôl-pync ifanc o Gymru, MORN, yn chwarae mewn cau tywyll ymysg tân gwyllt ffrwydrol ar y cyd ag animeiddio stop-symud - delweddu du a gwyn trawiadol ar gyfer Dyn Modern.

**8. Fleur De Lys - Fi**
*gan Robin Abas*
Fideo gerdd a ffilmiwyd yn Nghlwb Gweithwyr yn Llangefni, Ynys Môn, gan ddwyn rhywfaint o ddylanwad oddi wrth Peter Kay's Phoenix Nights, mae'r fideo yn ymgais i ddathlu diwylliant y lleoliad ac yn arddangos y band yn chwarae sawl rôl.

**9. Leon Rosen: Wyld Canopies**
*gan Victoria Livingstone*
Naratif retro-ysbrydoledig yn dwyn i gof "Artist's Hero's Journey:" o ganfod angerdd rhywun a rhoi'r angerdd hwnnw ar waith at bwrpas da.

# CYSTADLEUAETH PRIF FFILM CYMWYS BAFTA-CYMRU YN ODEON WRECSAM

## *Friday 8th May, 2026. Odeon Wrexham*

***Guidance:** 15 Strong language, sex.*

**Derbyniad Carped Coch** *5yp-6yh*
Derbyniad carped coch gyda diodydd cyfarch gan Ddistyllfa Silver Circle.

**Effi o Blaenau + Holi ac Ateb**
*6yh-8.30yh*
Effi o Blaenau - Dan gyfarwyddyd Marc Evans ac yn serennu Leisa Gwenllian. Ymddangosiad cyntaf yng Nghymru.

**BYDD Y CYFARWYDDWR A'R DONIAU YN BRESENNOL.**

Stori fywiog, am ddyfod i oed ym Mlaenau Ffestiniog. Mae llwybr bywyd Effie'n newid ar noson allan pan mae'n cyfarfod a'r cyn-filwr, Lee, mewn clwb nos yn Llandudno.

Hefyd yn serennu Tom Rhys Harries, Owen Alun a Nel Rhys Lewis. Arweiniad 15+. 1 awr 30 munud.

Mae'r ffilm yn dechrau am 6yh. Dewch yn gynnar i osgoi cael eich siomi. Mae gofyn cael sedd gadw neu docyn i fynychu. Bydd 'llinell frys' yn cael ei gweithredu ar gyfer unrhyw un heb sedd gadw. Bydd unrhyw seddi gwag yn dod ar gael 10 munud cyn i'r ffilm ddechrau.

**Seremoni Wobrwyo**
*8.30yh-9.30yh*
Ymunwch â ni ar gyfer Seremoni Wobrwyo Gŵyl Ffilmiau 2026, lle byddwn yn coroni enillwyr ein cystadleuaeth prif ffilm a'r prif gategorïau'r ffilm fer.

Dewch yn gynnar i osgoi cael eich siomi. Mae gofyn cael sedd gadw neu docyn i fynychu. Bydd 'llinell frys' yn cael ei gweithredu ar gyfer unrhyw un heb sedd gadw. Bydd unrhyw seddi gwag yn dod ar gael 10 munud cyn i'r ffilm ddechrau.



# DYDD GWENER
# PARTI WEDYN I WNEUTHURWYR FFILMIAU

*Friday 8th May, 2026. HWB @ Queen's Square*

**Parti Wedyn i Wneuthurwyr Ffilmiau**
*10yh-12yb.*
Ymunwch â ni am ddiodydd, rhwydweithio a dawnsio, diolch i Ddistyllfa Silver Circle.

**Cerddoriaeth Fyw yn parhau, amryw leoliadau**
*12yb-3yb*
Mae'r ŵyl yn parhau hyd berfeddion y nos mewn gwahanol leoliadau ledled canol Dinas Wrecsam.



# DYDD SADWRN 9FED MAI, 2026

*Theatr Grove Park*

10:00 YB – 12:00 YP: AWENYDD 1

12:00 YP – 1:30 YP: AWENYDD 2

2:00 YP – 3:00 YP: SGWRS DALENT: Fe Wnaethon ni Ffilm Fer gyda Mawrion Teledu Cymru.

3:00 YP – 5:30 YP: AWENYDD 3

5:30 YP – 6:30 YH: SEREMONI WOBRWYO AWENYDD

*AWENYDD*

AWNENYDD is a new strand of our BAFTA-Cymru Qualifying Short Film Competition, highlighting bold and brilliant filmmaking: locally, nationally and internationally.

# AWENYDD 1
# STRAEON CYMRU

## *10am-12pm - Grove Park Theatre*

*AWENYDD ydy'r edefyn newydd i'n Cystadleuaeth Ffilm Fer Cymwys BAFTA-Cymru - yn amlygu creu ffilmiau beiddgar a gwych.*
**Guidance: 15+** *Strong language, sexual references, mental health issues.*

**1. Never Never Never**
*gan John Sheedy*
Drama. Mewn pentref pysgota hen ffasiwn yng Nghymru, dyheu'n ddirgel mae Henrick, y darpar-frenhines ddrag, am Arwyn, pysgotwr sydd, er ei natur dawel, yn cuddio storm o emosiynau. Wrth i Henrick serennu ar y llwyfan leol ochr yn ochr â'i fam, Frida, mae eu sioe disglair yn tanio tensiynau gyda'i dad traddodiadol, Clive.

*"The look, feel and sheer spectacle of the performances tightly move this tale along with vigour and panache!"*

**2. Mari Lwyd**
*gan Charlie Grayson*
Dogfen. Hen draddodiad o dde Cymru - wedi'i adrodd o bersbectif yr union fodau sy'n cyraedd gyda'r Fari Lwyd pob byrddydd gaeaf.

**3. Xcursion** *gan James Malcolm*
Comedi dywyll. Ym merfeddion y goedwig, mae taith wersylla rhwng dau ffrind yn dechrau ymddatod wrth i rwystredigaethau ysgafn ddatgelu gwirioneddau tywyllach.

*"...the ending is a brilliant hammer blow...nice twist !"*



**4. Birthday Boy**
*gan Rosa Brooke*
Comedi. Mae Rae yn brwydro i oroesi Penblwydd trychinebus gyda'i theulu camweithredol.

**5. Rick On The Roof**
*gan Isaac Atkin-Mayne*
Dogfen. Yng nghanol y 2000au, collodd Rick Canty ei fam a'i gartref yn Y Barri yng Nghymru. Wedi'i droi allan o'i gartref, dringodd ar y to mewn protest, gan aros yno am flynyddoedd. Hanes chwerw-felys am un dyn ar ben to a ysbrydolodd ac uno cymuned ddosbarth gweithiol yng Nghymru.

*"Brilliant in its simple portrayal!"*

**6. FENCED** *gan Richey Beckett*
Comedi/drama. Mae cwpwl ecsentrig yn trin a thrafod amodau perthynas agored tra'n hela madarch hudol ym mryniau Cymru.

*"The dialogue is on point and well delivered gan some neat performances gan the lead roles."*



**7. Dreigiau Cymreig Patagonia**
*gan Niamh Wynne*
Dogfen. Yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol uwchradd, mae tri chyfaill agos o'r Ariannin yn paratoi ar gyfer eu cystadleuaeth Eisteddfod olaf - ond a ydyn nhw'n barod i ffarwelio?

**8. PUNCHING BAG**
*gan Rob Ayling*
Drama. Mae bocsiwr amatur yn ymladd yn erbyn ei ddemoniaid yn ogystal â'i wrthwynebydd mewn gornest a all fod yn frwydr bywyd iddo.

*"Really beautiful film. Handles themes of addiction, self-hatred, perseverance, and mental health really well."*

# AWENYDD 2: STRAEON WRECSAM

**12pm-1.30pm - Grove Park Theatre**

*Fflimiau gan ddoniau lleol. AWNENYDD ydy'r edefyn newydd i'n Cystadleuaeth Ffilm Fer Cymwys BAFTA-Cymru - yn amlygu creu ffilmiau beiddgar a gwych.*
*Guidance: 15+ Strong language, sexual references, nudity, strong violence.*

**1. Time to Go** *gan Thomas Elliott Griffiths*
Ffilm iâs a chyffro gan gyfarwyddwr o Wrecsam. Mae gweithiwr swyddfa sydd wedi cael hen ddigon yn creu cynllwyn manwl i gael gwared â'i bos llygredig, rheibus unwaith ac am byth.

**2. Ball Hog** *gan Nate Reeves*
Comedi untro wedi'i ffilmio yn Wrecsam gyda doniau lleol. Mae merch ysgol ifanc yn recriwtio'i chefnder hŷn i geisio cael pêl-droed a ladratawyd ganddi.

**3. Madam** *gan Cheryl White*
Drama'n serennu Mark Lewis Jones, yr actor o Rhos. Mae'r Tad Donaghy a'r Tad Gill yn yfed a chwarae cardiau'n hwyr i'r nos. Wrth iddyn nhw gamblo â'u dyletswyddau, mae pob tro o'r cerdyn yn datgelu eu pechodau a'u chwantau cudd.

*"A tale of saint and sinner...or is it ? ...a delight to watch!"*



**4. Undertone** *gan Shaun Munro*
Ffilm iasol chyffrous a leolwyd yn Wrecsam. Mae peiriannydd sain yn cipio ffenomena sonig o dan ei gartref ac mae pethau'n... gwaethygu o hynny ymlaen.

**4. The Shape of Absence** *gan Isaac Shieh*
Ffilm symud a cherddoriaeth pryfoclyd yn serennu doniau lleol. Archwiliad o'r pellteroedd tawel rhwng corff, meddwl, a dirnadaeth. Trwy gyfrwng dwy olygfa ddawns mynwesol, mae'r ffilm yn symud trwy dirweddau mewnol ynysig salwch meddwl a diffyg clyw, tra'n archwilio sut mae anabledd yn llunio ac yn ysgwyd hunaniaeth.

# SGWRS DALENT

**2pm-3pm - Grove Park Theatre**

## FE WNAETHON NI FFILM FER GYDA MAWRION TELEDU CYMRU

**BYDD Y CYFARWYDDWR A DONIAU YN BRESENNOL.**

Dewch i glywed gan y tîm fu'n gyfrifol am 'Box of Frogs' ynghylch creu eu ffilm fer newydd yn Wrecsam, yn serennu Matthew Horne a Mark Lewis Jones.

Bydd y digwyddiad yn cynnwys sgriniad arbennig o'r ffilm, ynghyd â sesiwn Holi ac Ateb gyda'r cyfarwyddwr a'r cynhyrchwyr.

Ian Puleston-Davies - Cyfarwyddwr.

Dean Fagan a Rugan Snape - Cynhyrchwyr.



# AWENYDD 3:
# STRAEON RHYNGWLADOL

## *3pm-5.30pm - Grove Park Theatre*

*AWNENYDD ydy'r edefyn newydd i'n Cystadleuaeth Ffilm Fer Cymwys BAFTA-Cymru - yn amlygu creu ffilmiau beiddgar a gwych..*

***Guidance: 18+** Strong language, mental health issues, sex, nudity.*

**1. Tulips** *gan Rhys Prichard*
Drama. Mae'r fyfyrwraig Sophie, sy'n wneuthurwr ffilmiau, yn mynd gyda'i rhieni i gofnodi diwrnod olaf ei thaid yn ei gartref cyn cael ei adleoli oherwydd ei ddementia. Wrth iddi ffilmio, mae hi'n dod wyneb yn wyneb â'r foeseg o greu gwaith sydd cyffwrdd braidd yn agos at y byw.

**2. How fast can you eat a pickled egg?** *gan Daniel England*
Dogfen chwithig. Nid tafarn cyffredin yn Nwyrain Llundain ydy The Cock Tavern. Gydag enw da am ei gwrw traddodiadol a'i chymêrs, mae hefyd yn gartref i un o draddodiadau tanddaearol mwyaf hynod y brifddinas: cystadleuaeth bwyta wyau 'di piclo.

**3. The Final Whistle** *gan Ivo Kraan*
Dogfen deimladwy. Wrth i SC Cambuur baratoi i adael ei gartref eiconig yn Stadiwm Cambuur am arena newydd, mae The Final Whistle yn cynnig golwg agos-atoch ar y gêm derfynol i'w chwarae yn y stadiwm hanesyddol. Ond nid ffilm am bêl-droed ydy hon - mae'n ymwneud â chalon ac enaid y cefnogwyr sy'n galw fama'n gartref.

*"...beautifully woven together, it's melancholic and that's part of its overall charm...perfectly encapsulates a community..."*

**4. Out of Hours** *gan Calvin Duffy*
Drama. A British Latino bartender is starting his shift when he receives an unsettling visitor.

*"...this brings awareness to a new generation and the subject matter is deftly handled."*

**4. The Anarchist and the Fridge** *gan Yunchang Zhang*
Dogfen iberi ichi feddwl. Mae The Anarchist and The Fridge an adrodd hanes yr anarchydd a sefydlodd yr oergell rhad ac am ddim gyntaf yn ardal Bed-Stuy yn Efrog Newydd. Bellach, mae'n ei gweld hi'n ddyletswydd arno i aligyflenwi'r oergell, gan ddefnyddio bwyd rhad ac am ddim i uno cymuned a herio'r system.

**5. Teeth for Tango** *gan Alexandra DEWEZ*
Arbrofol. Deintydd ganol oed, isel ei ysbryd ydy Walter, wedi'i lethu gan rithweledigaethau a'i ddwrdio gan bawb o'i gwmpas. Ei unig gysur ydy cael cyfarfod gyda'r hwyr gyda'i debyg ar gyfer gornestau am-y-cyntaf i dynnu gwaed.

**6. Irish Son** *gan Tolu Ogunware*
Iâs a Chyffro. Yn nyfnderoedd cefn gwlad Iwerddon, mae rhdwr coll yn ddisymwth yn dod ar draws caffi anghysbell lle mae'n cwrdd â dieithryn carismataidd.

**7. Two Sinners** *gan Samir Zaidi*
Iâs a Chyffro. Pan fo brawd Azhar yn ei orfodi i wynebu'r dyn fu'n gyfrifol am ymosod ar eu chwaer, fe'i teflir at ddewis ingol. A ydy e'n dilyn ei ddirmyg dwfn at drais, neu'n ildio i'r awydd llethol i ddial? Wedi'i rwygo rhwng moesoldeb a chyfiawnder, bydd cam nesaf Azhar yn newid popeth.

**8. Gloria** *gan Nikos Mpouyioukas*
Dawns a symud. Cewch brofi bywyd trwy lygaid Gloria, sy'n fenyw draw a gweithiwr rhyw, yn byw a bod ar hyd strydoedd yr Athen fodern.

**9. Carrot Cake** *gan Olive Pascha*
Drama. Yn Ardal y Peak, mae bywyd gwyliwr adar yn newid wrth iddi wynebu cysgodion cyntaf dementia cynnar. Gyda dyfodiad ei mherch a chyfeillgarwch annisgwyl gysa merch ifanc, mae'n dechrau canfod ei ffordd trwy diroedd bregus ei chof a'i hunaniaeth.



**10. Jasmine. Home. Mother**
*gan Ugnė Skonsmanaitė*
Ar sioe gêm swreal lle mai'r straeon ydy'cyfrwng cyfnewid, mae dynes yn ymladd system sy'n sensora pob un gair ddaw o'i genau, gan frwydro i adennill cof ei theulu, ei mamwlad a'r jasmin fu unwaith yn blodeu yno.

*"...beautiful in its delivery!"*

**11. Petrol Head**
*gan Patrick Swain and Jasper Frost*
Drama gyffro. Yn gaeth eto yn ei dref gartref, mae'n rhaid i Jake, sy'n ymgodymu â gorbryder ac agroffobia, ddewis: diogelwch y bywyd fu'n gyfarwydd iddo, neu'r peryg o glwb ralio risg uchel gyda'i gyfaill, Yas..

## SEREMONI WOBRWYO AWENYDD

*17:30 - 18:30 Grove Park Theatre*

*Ymunwch â ni ar gyfer Seremoni Wobrwyo AWENYDD 2026, lle wnawn ni goroni enillwyr adran fywiog ffilm fer newydd ar gyfer FOCUS Wales..*

## DATGANIAD GAN RAGLENNYDD YR ŴYL FFILMIAU AR Y DEWIS ELENI

This is the dream. It seems to spiral because it leads somewhere, like down a plughole or better yet, into expanses, skies and seas. It steals away. This more immediate and fantastic volution is what captivates us in film. What makes waking life more 'realistic' is that its twists and turns are rendered more slowly. Recognising this reduction in speed enables a transcendental consciousness: the universe is the projector, there are no main characters, everyone has their own unique perspective on the editing process, everything is in the script.

The credits roll, the next film starts.

I feel blessed to play my role at FOCUS Wales. Congratulations to all of the filmmakers and here's to a successful festival.



- Scott Fitzgerald, Head Programmer
(Prif Raglennydd (y dyn sy'n gwylio popeth).